# CYNGOR CYMUNED LLANYSTUMDWY

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6

## Adroddiad ar y Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2023/2025

Mae Cyngor Llanystumdwy yn darparu amrediad o wasanaethau i'w cymuned leol sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth. Mae rhain yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb am nifer o fannau gwyrdd, gan gynnwys un parc chwarae yn Llangybi a sawl llwybr lleol.
- Rydym yn hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth drwy gyflawni amcanion cynaliadwyaeth a gweithredu arferion cynaliadwy lle bynnag y bo modd.
- Mae dalgylch y Cyngor yn nhiriogaeth Eifionydd, ac yn glwstwr o bentrefi bach a chanolig eu maint sydd wedi ei lleoli mewn cefn gwlad prydferth.
- Asgwrn cefn yr economi leol yw'r diwydiannau amaeth, bwyd a thwristiaeth. Mae'r tirwedd yn gymysgedd o dir glas, corsdir, rhosydd a choedwigaeth sy'n ymestyn o lannau ac aber yr afon Dwyfach i ben Garn Bentyrch (748 troedfedd uwchlaw'r mór).
- Ym mis Rhagfyr 2025, roedd 1622 o etholwyr o fewn y gymuned.
- Mae pedair ward yn y gymuned, Ward Llangybi, Llanarmon, Rhoslan a Llanystumdwy.
- Praesept y Cyngor hyd at 01.04.2025 – 31.03.2026 yw £20,500.00

Dyma rai o'r llwybrau poblogaidd yng nghymuned Llanystumdwy

1. Y Lôn Goed.
Mae'r llwybr yma yn cychwyn yn Afonwen a gellir ei ddilyn yr holl ffordd i Hendre Cennin. Mae'n enwog oherwydd y coed blannwyd y naill ochr iddo gan John Maughan sef stiward Ystâd Plas Hen/Talhenbont. Y syniad oedd bod y coed yn tynnu'r gwlybaniaeth o'r tir, oedd yn ei gwneud yn haws i ffermwyr y stâd allu cario calch o Afonwen i'r gwahanol ffermydd ac felly'n codi ansawdd y tir.
2. O Afonwen gellir ymuno â llwybr yr arfordir, naill ai draw am Bwllheli neu draw am Lanystumdwy. Am Lanystumdwy mae'n dilyn y briffordd cyn troi oddi ar y briffordd drwy iard fferm Abercin a draw am aber yr Afon Dwyfor cyn dilyn y llwybr draw am Griceth uwchlaw y traeth.
3. Gellir gwyro oddi ar lwybr yr arfordir yn Bont Fechan a dilyn llwybr Clawdd Llanw am aber yr Afon Dwyfor, ar draws yr afon i'r llwybr uchod. Ond bydd rhaid ichi ddilyn y llwybr yn ôl i Bont Fechan achos mae'n amhosibl croesi'r afon.
4. O bentref Llanystumdwy gallwch ddilyn y llwybr sy'n cychwyn ger bedd D. Lloyd George ar hyd glan yr afon Dwyfor, drwy Goed Trefan i fyny at Bont Rhydybenllig. Mae'n llwybr poblogaidd sy'n gallu bod yn fwdlyd pan mae llif yn yr afon.
5. Llwybr arall byr yw dilyn y ffordd o bentref Llanystumdwy fyny heibio mynedfa bedd D. Lloyd George ac yna troi i'r dde ym mhendraw y ffordd, heibio Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, dyma lle treuliodd Lloyd George ei flynyddoedd olaf, cyn dilyn y llwybr yn ôl i'r briffordd rhwng Llanystumdwy a Chricieth.
6. Llwybr arall yw wrth ddilyn y briffordd am Gricieth, heibio rhes tai Caellobrith, ac yna pan ddewch at Lodge Ynysgain, croeswch y ffordd, cadwch i'r chwith a dilynwch lwybr Ynysgain Bach DAN y rheilffordd i blwyf Cricieth. Gallwch gario ymlaen, troi i'r chwith a dilyn llwybr Cynffon y Gath ddaw â chi i Gricieth, un ai yn ymuno â llwybr yr arfordir neu allan wrth gwt y Guides yn Muriau.

Yn ogystal mae rhai llwybrau poblogaidd yn ardal Llangybi.

7. Y llwybr i gopa Garn Bentyrch.
Gallwch barcio naill ai ger arwydd Ffynnon Cybi neu ynghanol y pentref, rywle yng nghyffiniau'r eglwys a dilyn yr arwyddion am Ffynnon Cybi. Ar ôl gweld y Ffynnon, ewch drwy'r giat a dilyn y llwybr swyddogol yn syth i fyny am gopa Garn Bentyrch.
Ar ddiwrnod clir gallwch weld am filltiroedd draw am fynyddoedd yr Eifl, Eryri neu draw am arfordir Llŷn ac ar draws y môr am Harlech ac ymhellach.
8. Mae'n bosib dilyn y llwybr yma nôl at y Ffynnon, a chadw i'r dde ymlaen am Bont y Merched ddaw â chi allan ger Ysgol Gynradd Llangybi.
9. Mae'r gwasanaethau canlynol sydd yn cael ei darparu gan y Cyngor Cymuned yn cael effaith ar fioamrywiaeth:

- Cyfrifoldeb am dorri gwair 5 llwybr cyhoeddus
- Torri gwair Cae Chwarae Llangybi
- Cadw lleoliad carreg Bedd Lloyd George yn daclus
- Torri clawdd lon ger Maenywern, Llanystumdwy

| Adroddiad Gweithredu | | |
|---|---|---|
| Camau gweithredu i:- | | Wedi ei monitro gan: |
| Cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael | Wrth ymateb i geisiadau cynllunio | Cyngor Cymuned yn ei cyfarfodydd misol/Cyngor Gwynedd |
| -codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | Fe wnaeth y Cyngor Cymuned gysylltu hefo Pennaeth Ysgol Llanystumdwy i'w holi os byddent yn fodlon creu cynefin ar gyfer bioamrywiaeth yng nghae yr ysgol. Cytunwyd i blanu 10 o goed ffrwythau Cymreig a chreu cynefin newydd, drwy gymorth Swyddog Bioamarywiaeth, Cyngor Gwynedd.<br>Cadarnhaoedd y Swyddog Bioamrywiaeth, fod nifer o ysgolion cynradd yng Ngwynedd yn rhan o'r cynllun yma, ac mae yn ddi-gost i'r ysgol. Mae Ysgolion Chwilog a Llangybi eisioes wedi bod yn ran o'r cynllun yma yn y gorffennol hefyd. | Clerc/Cynghorwyr y Cyngor Cymuned o fewn Ward Llanystumdwy |
| -diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd | Gofalu fod ceisiadau cynllunio yn cydymffurfio gyda rheolau Cyngor Gwynedd.<br>Torri gwair 2 y flwyddyn er mwyn diogelu gloynod byw, | Cyngor Cymuned cyfarfod misol/Cyngor Gwynedd |

| | | |
|---|---|---|
| | gadael i laswellt a blodau gwyllt wasgaru eu hadau cyn ei torri, er mwyn sicrhau cynaladwyaeth yn ystod y blynyddoedd dilynol.<br>Bydd y toriad cyntaf yn cael ei wneud ddechrau Mehefin a dechrau fis Medi.<br>Mae Cyngor Gwynedd yn torri gwair ar ochrau ffyrdd unwaith y flwyddyn.<br>Hybysu asiantaethau megis Cyngor Gwynedd, Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru o dyfiant rhywogaethau ymledol. | |
| -adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth | Mae gan y Cyngor dir yn Rhydybenllyg, Rhoslan sydd yn arwain i lawr at afon Dwyfor. Nid yw'r tir yma wedi cael ei dorri ers blynyddoedd, ac felly'n creu cynefin a rhwydwaith ecolegol ar gyfer pob math o blanhigion a bywyd gwyllt, a darparu lloches ar gyfer mamaliaid ac ymlusgiaid bach. | Cyngor Cymuned |
| -mynd i'r afael ag elfennau negyddol:lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol | Rydym yn cadw golwg manwl ar dyfiant rhwyogaethau estron goresgynnol, fel canclwm siapaneaidd. Dwy flynedd yn ol roedd yn tyfu ger mynedfa llwybr y traeth Afonwen ac mewn rhan ger yr afon yn Bont Fechan, Llanystumdwy, ac fe gysylltodd y Clerc hefo Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd. | Cyngor Cymuned/Cyngor Gwynedd<br>Pan fyddwn yn sylweddoli fod canclwm siapaneaidd yn tyfu ar ein llwybrau bydd y Clerc yn hysbysu Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd, i ddatrys y broblem. |
| Cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill. | **<u>Prosiect Bioamrywiaeth Ymylon Ffyrdd Gwynedd – ger Afonwen ac Hafan y Môr</u> -** Mr Hywyn Williams, Swyddog Bioamrywiaeth, Adran Amgylchedd y Cyngor sydd yn cydlynu'r Bartneriaeth Natur Leol o fewn y sir.<br><br>Fe wnaethant sicrhau cyllideb o dan gynllun 'Llefydd Lleol ar gyfer Natur' Llywodraeth Cymru er mwyn buddsoddi yn isadeiledd rhai o'r safleoedd tir sydd yn mherchnogaeth y | Cyngor Gwynedd/Cyngor Cymuned |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyngor a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd i natur Gwynedd.<br><br>Mae nifer fawr o ymylon ffyrdd Gwynedd o dan berchnogaeth y Cyngor ac, yn y gorffennol, mae'r ymylon yma wedi cael eu cynnal heb fawr o ystyriaeth i'r fioamrywiaeth a oedd yn bodoli ynddynt. Gwnaed hyn mewn dau dau safle o fewn Cyngor Llanystumdwy, sef rhwng Cricieth a Phwllheli ar gyfer y gwaith, sef ger Afonwen a Hafan y Mór ar yr A497. | |
| Cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill. | Cefnogi gwaith Menter y Plu, Llanystumdwy i'r gweithgaredd cymunedol sydd ganddynt, sef datblygu gardd gymunedol a rhandiroedd.<br>Mae'r gwaith yma yn mynd i wneud gwahaniaeth mawr i drigolion yn y gymuned, drwy dyfu cnydau a phob math o blanhigion a lleihau ól-troed carbon bwyd. | Menter y Plu / Cynghorwyr sydd yn ymwneud a'r Fenter<br><br>Mae hyn o fudd mawr i'r gymuned, i bob oedran, a datblygu diddordeb plant mewn tyfu cynnyrch ei hunain.<br>Mae prosiect fel yma yn cyfrannu at les iechyd meddwl y gymuned, wrth greu manteision o fod allan yn yr awyr agored, gweld planhigion yn tyfu, a'r holl fanteision o allu cymysgu gydag eraill sydd hefo diddordebau tebyg.<br>Yn dilyn cyfnod mor heriol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hyn yn bwysig iawn i'r pentref. |
| Defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth | Cadw golwg ar y gwinllanoedd sydd o fewn y gymuned, a'r Lon Goed | Fe gysylltwyd a Chyfoeth Naturiol Cymru/Adran Cynllunio ynglyn â phryder am dorri coed, a gweithgareddau anghyffredin oedd yn digwydd mewn gwinllanoedd o fewn y gymuned.<br><br>Cysylltwyd â Chyngor Gwynedd oherwydd bod darn o'r Lon Goed wedi cael ei malurio wrth i beiriannau |

| | | |
|---|---|---|
| | | mawr fynd ar ei hyd, a bod gwreiddiau rhai o’r coed wedi dod i’r gwyneb oherwydd y tramwyo. |
| Beth sydd wedi gweithio’n dda? | Nid oes gan Cyngor Cymuned Llanystumdwy lawer o dir i allu datblygu neu greu cynefinoedd na llawer o fannau cyhoeddus, ond mae medru cysylltu hefo e.e. ysgol leol i ddatblygu darn o dir yn beth da. | Clerc/Cynghorwyr/ Pennaeth Ysgol/Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd |
| Beth fyddwch yn ei newid? | Cysylltu gyda Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd ac Unllais Cymru eto, i weld os oes unrhyw beth allent awgrymu y gallwn wneud eto ar gyfer y dyfodol. | Clerc/Cynghorwyr/Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd/ Un Llais Cymru |

**Arolwg o ddyletswyddau Adran 6**
Monitro parhaus gan y Cynghorwyr, Clerc ac unrhyw sylwadau gan y cyhoedd. Bydd y Cynllun Adran 6 yn cael ei adolygu yn ngoleuni unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth arall a wneir ar gael i’r Cyngor.
Arfarniad ym mis Rhagfyr bob blwyddyn.

**Bwriad:**
Cysylltu hefo’r ysgolion cynradd lleol i weld os ydynt yn gwneud unrhyw waith yn y maes.
Rhoddwyd cyfraniad ariannol tuag at y rhandiroedd sydd y tu ol i’r Fenter y Plu, Llanystumdwy.
Trefnu cyfarfod/sgwrs i gael cyngor pellach gan Swyddog Bioamrywiaeth Lleol.

Llofnodwyd:- _______________ Anwen Jones, Cadeirydd, Cyngor Cymuned

Llofnodwyd:- _______________ Bethan Parry Jones, Clerc Cyngor Cymuned

Dyddiad:- 05.03.2026